# Cadeirydd Anweithredol

## Mentera

**Mentera ydyn ni. Rydyn ni yma i feithrin economi lewyrchus i Gymru sy'n cael ei gyrru gan gymuned gref o fusnesau llwyddiannus, o safon ryngwladol.**

Ydych chi eisiau gweld busnesau yng Nghymru yn llwyddo? Ydych chi'n angerddol am lwyddiant economaidd Cymru? Ydych chi eisiau helpu i gefnogi ein hymgyrch am economi ffyniannus yng Nghymru sy'n cael ei yrru gan symudiad busnesau ffyniannus? Oes gennych chi brofiad o helpu busnesau i sicrhau llywodraethu da fel sylfaen llwyddiant?

Rydym yn recriwtio cadeirydd newydd i arwain ein Bwrdd Cyfarwyddwyr Anweithredol deinamig a phrofiadol, wrth i'n Cadeirydd presennol ddod i ddiwedd ei thymor. Byddwch yn cynnig arweiniad strategol a phersbectif annibynnol ar adeg hynod gyffrous i'r cwmni.

MENTERA



# Croeso!



Diolch yn fawr iawn am ddangos diddordeb mewn dod yn gadeirydd Mentera. Mae wedi bod yn fraint i mi arwain y Bwrdd am y chwe mlynedd diwethaf ac i oruchwylio cyfnod o dwf a datblygiad sylweddol. Wrth i'r ail o'm dau dymor ddod i ben, rydym yn chwilio am rywun newydd i arwain y Bwrdd a helpu i lywio'r cwmni cyffrous hwn yn ystod ei bennod nesaf.

Mae rôl ac ystod gwaith y cwmni wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd i'r pwynt nawr lle mae gennym drosiant blynyddol o dros £20 miliwn ac rydym yn cyflawni nifer o raglenni cymorth busnes sylweddol ar ran Llywodraeth Cymru ac eraill, yn ogystal â phortffolio cynyddol o wasanaethau masnachol.

Yn 2025, lansiwyd ein strategaeth uchelgeisiol hyd at 2030, yn ogystal ag enw a brand newydd i'r cwmni. Ein gweledigaeth yw sicrhau economi lewyrchus i Gymru sy'n cael ei gyrru gan gymuned gref o fusnesau llwyddiannus, o safon ryngwladol.

Mae ein gwaith a'n gwasanaethau yn seiliedig ar feithrin arloesedd, gweithio'n ddeinamig a gwneud gwahaniaeth ac mae'r egwyddorion craidd hyn yn ein gyrru ym mhopeth a wnawn.

Rydym am benodi cadeirydd profiadol ac uchelgeisiol i arwain ein Bwrdd deinamig ac amrywiol ac i'n helpu i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd. Mae hwn yn gyfle hynod ddiddorol sy'n gofyn am weledigaeth, uchelgais a brwdfrydedd dros ddatblygu'r economi yng Nghymru.

*Os ydych chi'n meddwl bod eich sgiliau yn ddelfrydol ar gyfer y rôl, cysylltwch â ni!*

Fflur Jones

**Cadeirydd Mentera**

# Ffeithiau allweddol

· Penodiad gwirfoddol, gyda chostau teithio a chynhaliaeth yn cael eu talu

· Ymrwymiad o bedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn

· Cynhelir cyfarfodydd fel cymysgedd o gyfarfodydd rhithiol ac wyneb yn wyneb ledled Cymru

· Tymor cychwynnol o dair blynedd, gydag ail dymor posibl

# Diben

· Gweithio gyda’r aelodau anweithredol eraill, i gefnogi'r Prif Weithredwr a’r Tîm Arweinyddiaeth i yrru'r gwaith o gyflawni cynllun strategol Mentera, gan gyfrannu at lwyddiant a chynaliadwyedd ariannol y cwmni

· Dod â safbwynt a phrofiad proffesiynol unigryw i'r Bwrdd a fydd yn ychwanegu gwerth at gyfeiriad hirdymor y cwmni

***Mae deiliad y rôl yn gyfrifol am y prif feysydd canlynol:***

- Arweinyddiaeth a Llywodraethu
- Rheoli’r Bwrdd
- Goruchwyliaeth ar lefel llywodraethu
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid

· Rydym yn chwilio am brofiad mewn arweinyddiaeth Bwrdd neu uwch arweinyddiaeth arall; dealltwriaeth ddofn o lywodraethu corfforaethol a rheoli risg; sgiliau cyfathrebu a hwyluso rhagorol; gwybodaeth dda o sector sy’n berthnasol i'r cwmni; ac angerdd am ein pwrpas a'n gweledigaeth.






# Cyfrifoldebau

· Sicrhau safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser

· Arwain cyfeiriad strategol y cwmni o fewn y fframwaith polisïau a'r adnoddau a gytunwyd, gan gynnwys mewn unrhyw gynlluniau strategol

· Craffu ar gyflawni canlyniadau drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt

· Sicrhau bod Mentera yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod cyfansoddiadol; ac yn unol ag unrhyw amodau eraill a osodwyd gan gyllidwyr

· Sicrhau bod Mentera wedi ystyried unrhyw ganllawiau cymharol wrth wneud penderfyniadau

· Sicrhau bod Mentera yn gweithredu polisïau cyfle cyfartal a chydraddoldeb i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, swyddogion Mentera ac unrhyw brosiectau a gweithgareddau a ariennir gan Mentera

· Sicrhau bod Mentera yn gweithredu polisïau amgylcheddol cadarn ac yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cyfrifoldeb i hyrwyddo datblygu cynaliadwy










# Dyletswyddau

· Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i ddatblygu blaengynllun gwaith ac agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd

· Paratoi ar gyfer, a chadeirio, pob cyfarfod Bwrdd a chyfrannu at, a bod yn rhan o benderfyniadau allweddol ynghylch strategaeth y cwmni

· Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd wrth roi cyngor ac anogaeth i'r cwmni mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisiau a chyflawni ei gyfrifoldebau a'i amcanion

· Rhoi cyngor awdurdodol ac amserol i'r Prif Weithredwr yn ôl y gofyn rhwng cyfarfodydd

· Cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i bwyllgorau, yn ogystal â chynnal y safonau llywodraethu corfforaethol, uniondeb a thegwch uchaf posibl

# Sgiliau a phrofiad personol

· Meddwl yn strategol gyda'r gallu i feddwl yn y tymor hir

Y gallu i herio a chynnig cymorth ymarferol yn adeiladol

· Rhwydweithiwr cryf, sy'n barod i fod yn llysgennad i'r cwmni yn eu bywyd y tu allan i'r Bwrdd

· Sgiliau dwyieithog yn ddymunol (Cymraeg a Saesneg)

· Uniondeb a hygrededd

· Cyfathrebwr rhagorol; gallu cyfleu pwynt i amrywiaeth eang o bobl, ac yn gallu parchu eraill a gweithio'n dda gyda nhw

· Gallu sicrhau goruchwyliaeth sy'n darparu defnydd effeithlon, effeithiol ac economaidd o adnoddau

· Y gallu i greu a chyfrannu at ddiwylliant o arloesi a gwelliant cyson ar lefel Bwrdd i gefnogi gweithredu'r strategaeth

# Mentera

**Mentera yw prif gwmni datblygu busnes annibynnol Cymru. Rydym yn helpu i wneud i bethau ddigwydd. O'r fro i'r byd, rydym yn rhoi'r cyfle i fusnesau fod o safon ryngwladol.**

Ein diben yw ysbrydoli busnesau a chymunedau i fod yn fentrus, a'u galluogi i ffynnu.

Rydym yn helpu busnesau bach a mawr i dyfu a ffynnu wrth annog a chefnogi pobl i sefydlu busnesau newydd, arloesol. Rydym yn cyflawni hyn ledled Cymru wrth deilwra gwasanaethau o

safon uchel, a chan fanteisio ar arbenigedd ein pobl, ein presenoldeb daearyddol a'n cysylltiadau cryf ag arweinwyr diwydiant, llywodraeth a phartneriaid eraill.

Mae Mentera (Menter a Busnes gynt) wedi bod yn ysbrydoli a chefnogi pobl a busnesau ledled Cymru ers 1989.

Mae ein gallu i gynnig ystod eang o wasanaethau yn ddwyieithog heb ei ail.

Mae gennym dros 160 o staff mewn pum swyddfa ledled Cymru, yn ogystal â rhai staff sy'n gweithio gartref. Mae 60 o weithwyr llawrydd ychwanegol yn darparu gwaith i'r cwmni ar unrhyw un adeg.

Mae trosiant blynyddol y cwmni oddeutu £20miliwn.

Mae ein **gwefan** yn rhestru rhai o'r prosiectau a'r rhaglenni ym mhortffolio'r cwmni ac yn nodi ein strategaeth ar gyfer y chwe blynedd nesaf. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau masnachol arbenigol i leihau'r straen cynyddol ar berchnogion busnesau prysur - gan eu rhyddhau i allu canolbwyntio ar yr hyn maen nhw'n ei wneud orau.



Mentera. Meithrin Arloesedd. Gweithio'n Ddeinamig. Gwneud Gwahaniaeth.

# Ein strategaeth

Mae ein strategaeth gorfforaethol – **O'r Fro I'r Byd** – yn amlinellu ein gweledigaeth, ein pwrpas a'n nodau strategol, wedi'u crynhoi isod.



# Llywodraethu

Ein nod yw cynnal y safonau proffesiynol a moesol uchaf bob amser. Rydym yn gwerthuso ac yn diweddaru ein strwythurau a'n ffyrdd o weithio yn rheolaidd ac rydym wedi datblygu systemau llywodraethu trylwyr a thryloyw sy'n golygu bod gennym ganllawiau cryf ar waith ar gyfer cynnal a gwneud penderfyniadau. Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn anelu at wella ym meysydd cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae Mentera yn gweithredu strwythur llywodraethu dwy haen.

Cyfrifoldeb Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) yw swyddogaethau strategol a goruchwylio'r cwmni. Rôl y Bwrdd yw llywodraethu a goruchwylio amcanion, gweithrediadau a chyfeiriad strategol y cwmni.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 12 Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol, sy'n gyfrifol am ddarparu craffu diduedd a goruchwyliaeth strategol. Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Cadeirydd yn darparu arweinyddiaeth wrthrychol i'r Bwrdd. Mae'r rôl yn helpu i sicrhau effeithiolrwydd y Bwrdd ac yn helpu i ddiogelu buddiannau'r holl randdeiliaid.

Yn dilyn llwyddiant ein rhaglen Cyfarwyddwr Iau gyntaf erioed yn 2022, mae gan y Bwrdd hefyd rôl bwrpasol ar gyfer cynrychiolydd o dan 30 oed. Yn ogystal â rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r cwmni, crëwyd y swydd i helpu pobl ifanc i ddatblygu profiad gwerthfawr o'r Bwrdd.

Mae'r Prif Weithredwr a thîm o swyddogion gweithredol yn rheoli gweithrediadau'r cwmni o dan arweiniad a llywodraethiant y Bwrdd. Er mwyn sicrhau a hyrwyddo rheolaeth effeithlon o ddydd i ddydd Mentera, mae'r Bwrdd yn dirprwyo ei awdurdod i'r swyddogion gweithredol yn unol â'r Atwrneiaeth.

Mae Tîm Arweinyddiaeth Mentera yn cynnwys wyth rôl: Prif Weithredwr; 2 x Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau; Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid; Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata; Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd; Pennaeth Technoleg, Newid ac Arloesi; a Phennaeth Datblygu Masnachol.

Mae gweithgareddau'r cwmni yn cael eu rheoli trwy ddau brif gorff gwneud penderfyniadau: y Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli. Ymhlith pethau eraill, mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn goruchwylio'r cylch cynllunio gweithredol blynyddol, yn ystyried y cynlluniau gweithredol ar gyfer meysydd allweddol y cwmni, ac yn sicrhau bod cynllunio busnes, ariannol a ffisegol yn cael eu hintegreiddio'n briodol.

Mae'r Tîm Rheoli yn helpu i wella cynllunio a gweithredu strategol a gweithredol traws-swyddogaeth. Gyda thîm o reolwyr sy'n cynrychioli adrannau a rhaglenni, maent yn helpu i gael blas ar weithrediadau beunyddiol a diwylliant cwmni, cryfhau perthnasoedd, adeiladu ymddiriedaeth, a nodi pryderon, heriau neu gyfleoedd i wella.

Mae'r cwmni'n gweithredu o fewn y cynllun sicrhau ansawdd ISO9001 ac mae wedi'i achredu bob blwyddyn. Mae hefyd wedi ymrwymo i fodloni safonau fel BS8555, Cyber Essentials Plus (sy'n ymwneud â thechnoleg a diogelu data), Safon Aur C2E (Committed to Equality), gofynion y Cod Talu’n Brydlon, a phwyntiau gweithredu’r 'Cynnig Cymraeg' ynghylch defnyddio'r Gymraeg.









# Y Broses Ymgeisio

I drefnu sgwrs anffurfiol am y cyfle hwn ac i fynegi eich diddordeb, anfonwch e-bost at **llyr.roberts@mentera.cymru**.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **17/04/26.** Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **04/05/26.**

Cofiwch roi gwybod i ni os oes angen unrhyw addasiadau neu drefniadau arbennig arnoch.

**Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn y gallwn wneud hyn drwy ddenu, datblygu a chynnal amrywiaeth eang o staff o wahanol gefndiroedd sy'n awyddus i greu sefydliad sy'n ceisio cyflawni ei ymrwymiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gymru a'r byd.**

DATGANIAD BUDDIANNAU

Dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddion personol, proffesiynol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn tra'n gweithredu fel Cyfarwyddwr Mentera.

MENTERA